

**FFURFLEN MANYLION POLISI
POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET**

TEITL Y POLISI: <i>POLICY TITLE:</i>	<i>Polisi ar Asesiadau mewn AU</i>
UWCH-GYFARWYDDWR A CHYFRIFOLDEB: <i>RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:</i>	<i>James Nelson</i>
PWRPAS: <i>PURPOSE:</i>	
EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD <i>IMPACT ON BILINGUALISM</i>	<i>Gweler yr Asesiad Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i>
EFFAITH AR GYDRADDOLDEB <i>IMPACT ON EQUALITY</i>	<i>Gweler yr Asesiad Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i>
EFFAITH AR GYNALIADWYEDD <i>IMPACT ON SUSTAINABILITY</i>	<i>Gweler yr Asesiad Effaith ar ddiwedd y ddogfen.</i>
ARGYMHELLIAD: <i>RECOMMENDATION:</i>	<i>Cymeradwyo</i>
CYFATHREBU <i>COMMUNICATION</i>	<i>Tîm Strategol, Porth y Grŵp</i>
PWLLGOR / GRŴP MONITRO: <i>COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:</i>	<i>Tîm Polisi CSSC Y Bwrdd</i>
CYMERADWYWYD GAN (A'R DYDDIAD): <i>APPROVED BY (AND DATE):</i>	<i>Tîm Strategol – 11/10/2021 CSSC – 03/11/2021 Y Bwrdd - 11/11/2021</i>
DYDDIAD ADOLYGU <i>REVIEW DATE CYCLE:</i>	<i>Ddwywaith y flwyddyn</i>

[English text](#)

Polisi Cadarnhau Canlyniadau Asesiadau Addysg Uwch ac Apelio yn eu Herbyn

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Raddau a ddilysir gan Brifysgol Bangor ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai, Dyfarniadau HNC a HND Pearson Edexcel.

Pwrpas y Polisi

Mae Grŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) yn cydnabod a chefnogi'r egwyddor bod ar ddysgwyr angen trefn i adolygu penderfyniadau academiaidd. Pwrpas y Polisi hwn yw darparu trefn o'r fath drwy ganiatáu i ddysgwyr ar raglenni AU a ddilysir apelio ar i'r Grŵp wirio penderfyniadau'n ymwneud â'u cynnydd a'u dosbarthiad ac apelio yn eu herbyn os bydd angen.

Fodd bynnag, hysbysir dysgwyr mai bwriad y Polisi (a'r Weithdrefn sydd ynghlwm wrtho) yw **Cadarnhau** penderfyniadau academiaidd Bwrdd Arholi ac Apelio yn eu herbyn; **nid** ydyw i gael ei ddefnyddio i wneud cwyn nac i apelio yn erbyn gradd asesu unigol. Dylai dysgwyr sy'n dymuno gwneud cwyn ddefnyddio'r Weithdrefn Gwyno sydd ar gael yn ddwyieithog ar Borth y Grŵp.

Ni ddylid defnyddio'r Weithdrefn hon **ychwaith** i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed o dan unrhyw un arall o **weithdrefnau'r Grŵp** sy'n dilyn eu prosesau apelio eu hunain e.e. Gweithdrefnau Disgyblu, Amgylchiadau Lliniarol, Arfer Annheg.

Ni dderbynnir unrhyw gais a wneir yn unig er mwyn cwestiynu dyfarniad academiaidd y Bwrdd Arholi e.e. lle mae'r dysgwr yn anfodlon â'i farc neu'n credu ei fod yn rhy isel.

Datganiad Polisi

Fel rhan o'i ymrwymiad i sicrhau profiadau dysgu o ansawdd uchel bydd y Grŵp yn mynd ati i sicrhau bod cwynion yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl. Byddwn yn disgwyl i ddysgwyr ymdrechu i ddatrys y mater yn anffurfiol yn y lle cyntaf. Dim ond os na fu'n bosibl i ddatrys cwyn y dysgwr yn anffurfiol y dechreuir ar weithdrefnau ffurfiol.

Gweithredir ar y ceisiadau a gyflwynir o dan y Weithdrefn hon yn deg, heb wahaniaethu yn erbyn y dysgwr na'i roi o dan anfantais a chan wybod y bydd ei gyfrinachedd yn cael ei barchu drwy gydol y broses (ac eithrio datgeliad cyfyngedig o gynnwys y cais er mwyn sicrhau ymchwiliad priodol).

Nodir yr egwyddorion o degwch a thryloywder sy'n llywodraethu apeliadau academiaidd a chwynion dysgwyr ym Mhennod B9 o God Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, ac yn unol â'r rhain ni chaiff unrhyw unigolion ymchwilio i, na gweithredu ar, unrhyw agwedd ar gais dysgwr i Gadarnhau penderfyniad neu Apelio os:

- oes ganddynt ddi-ddordeb materol yn y cais neu,
- os oes gwrthdaro buddiannau neu os oes posibilrwydd o wrthdaro buddiannau.

Dull Gweithredu

Bydd y Polisi hwn yn cael ei weithredu drwy'r Weithdrefn Gadarnhau ac Apelio.

Er mwyn hyrwyddo ethos dwyieithog y Grŵp caiff dysgwyr gyfle i nodi a ydynt am i ohebiaeth a / neu wrandawiadau Apêl fod yn Gymraeg neu Saesneg.

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd y Grŵp yn ymdrechu i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ddysgwyr sydd yn eu cais yn gofyn am addasiadau o'r fath e.e. darparu dehonglydd iaith Arwyddion Prydain neu gyfieithydd arall.

Monitro a Mesur Effaith

Caiff y Weithdrefn Gadarnhau ac Apelio ei monitro a'i gwella'n flynyddol gan y Pwyllgor Ansawdd a Safonau ym maes Addysg Uwch yn dilyn byrddau arholi arholiadau ailsefyll mis Medi.

Cyhoeddi'r Polisi

Bydd y polisi hwn (a'r Weithdrefn sydd ynghlwm wrtho) ar gael yn ddwyieithog i'r cyhoedd ar wefan y Grŵp ac i'r holl aelodau staff

ar Borth y Grŵp.

[Cymeradwywyd y Polisi gan: y Tîm Polisi](#)

Dyddiad cymeradwyo'r Polisi: Awst 2016

Dyddiad Adolygu'r Polisi: Awst 2021

Oherwydd yr adolygiad: Awst 2023

Gweithdrefn Cadarnhau Canlyniadau Aseidiadau Addysg Uwch ac Apelio yn eu Herbyn

(ar gyfer Rhaglenni Addysg Uwch a ddilysir gan Brifysgol Bangor, Pearson ac Edexcel.

1. I bwy mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol?

1.1 Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i:

- i. ddysgwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) sy'n cwblhau graddau sylfaen neu raddau atodol a ddilysir gan Brifysgol Bangor, Tystysgrifau Cenedlaethol a Diplomau Uwch (HNC/HND) a ddilysir gan Pearson Edexcel a Dyfarniadau Datblygiad Proffesiynol a,
- ii. dysgwyr sydd wedi derbyn unrhyw un o'r uchod fel cymhwyster gadael gan y Grŵp yn dilyn cwblhau neu gwblhau'n rhannol raglen AU a ddilysir gan Brifysgol Bangor, Pearson neu Edexcel.

1.2 Ni ddylai dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni a ddarperir mewn partneriaeth â Sefydliadau Dyfarnu ac eithrio Prifysgol Bangor, Pearson neu Edexcel ddefnyddio'r Weithdrefn hon. Yn hytrach, dylent gyfeirio at y llawlyfr cwrs a'r rheoliadau academiaidd sy'n berthnasol i'r Sefydliad Dyfarnu dan sylw. Mae rheolidau pob Sefydliad dyfarnu ar gael drwy wefan GLLM.

2. Nodiadau i Ddysgwyr a Diffiniad o Dermau

2.1 Gofynnir i ddysgwyr sy'n defnyddio'r Weithdrefn Gadarnhau ac Apelio nodi bod y Weithdrefn yn cynnwys **dau gam pendant**:

- i. cais am **Gadarnhad o ganlyniadau'r dysgwr** - dyma gam cyntaf y broses apelio sy'n golygu bod proffil academiaidd y dysgwr a'r dyfarniad a gafodd yn cael eu cadarnhau'n unol â pharagraff 3 isod,

ii. Cais am **Apêl i'r Grŵp** yn unol â pharagraff 4 isod

2.2 Rhaid i ddysgwyr wneud cais am Gadarnhad o'u Canlyniadau cyn y caiff cais am Apêl ei dderbyn gan y Grŵp.

2.3 Mae gan y geiriau canlynol ystyr penodol yn y Weithdrefn a dylid rhoi iddynt yr ystyr hwnnw (oni nodir yn wahanol):

"Aseiad" *unrhyw ddarn o waith a asesir sy'n cyfri'n swyddogol tuag at Ganlyniad cyffredinol y dysgwr.*

"Bwrdd Arholi" *panel o 25% o leiaf o Arholwyr Cymwys sy'n cyfarfod i arolygu cynnydd, Aseiad, a dosbarthiad dysgwyr ar raglenni a ddilysir gan Brifysgol Bangor, Pearson neu Edexcel.*

Mae "Arholwr" neu **yn golygu:**

"Arholwr Cymwys" *(i) yr aelodau canlynol o staff y Grŵp:*

- Y PC mae'r Bwrdd Arholi yn ymwneud â hi (neu enwebai);
- Arweinydd Rhaglen y rhaglen a gyflwynir i'r Bwrdd ('y Rhaglen a Gyflwynir');
- yr holl diwtoriaid sy'n ymwneud â darparu ac asesu modiwlau'r Rhaglen a Gyflwynir;
- aelod o'r Swyddfa Ryngwladol (os bydd myfyrwyr rhyngwladol wedi'u cofrestru ar y Rhaglen a Gyflwynir).

(ii) unrhyw unigolyn sy'n gweithredu fel Arholwr Allanol ar gyfer y Rhaglen a Gyflwynir.

Bydd unrhyw unigolyn a wahoddir neu a benodir i weithredu fel Aelod Ymgynghorol Cyfetholedig yn cael ei eithrio o'r diffiniad hwn.

"Canlyniad" *marc a gyfrifir ac a ddyfernir gan y Bwrdd Arholi i ddynodi perfformiad y dysgwr mewn Aseiad yn unol â Rheoliadau Prifysgol Bangor, Pearson neu Edexcel.*

Oni bai bod y cyd-destun yn nodi'n glir i'r gwrthwyneb bydd unrhyw eiriau unigol a ddefnyddir e.e. "Canlyniad" hefyd yn golygu'r lluosog h.y. "Canlyniadau" a "Chanlyniad".

3. Gweithdrefn Gadarnhau

3.1 Mae gan ddysgwr hawl i ofyn am Gadarnhad o un neu ragor o'r canlynol mewn perthynas ag Asesiad:

- i. **nad yw'r Canlyniad a gyhoeddir gan y Grŵp yn cynnwys gwallau rhifyddol na gwallau ffeithiol eraill;**
- ii. **bod yr Arholwyr yn ymwybodol o amgylchiadau personol eithriadol a allai ym marn y dysgwr fod wedi amharu er ei berfformiad academiaidd.**
- iii. **bod yr Arholwyr yn ymwybodol o ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad, neu mewn cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad, pan allai diffygion, afreoleidd-dra a chyngor o'r fath fod wedi, ym marn y dysgwr, amharu ar ei berfformiad academiaidd.**

3.2 Rhaid i'r dysgwr gyflwyno cais ysgrifenedig i'r Cydlynedd Sicrhau Ansawdd (CSA) y Grŵp o fewn **10 diwrnod gwaith** sy'n dechrau ar y dyddiad pan gyhoeddir penderfyniadau'r Bwrdd Arholi perthnasol. Gall ceisiadau a dderbynnir wedi'r cyfnod hwn gael eu derbyn os yw'r CSA yn credu bod rheswm da dros wneud hynny.

Noder: I'r pwrpas hwn defnyddiwyd y ffurflen ('Ffurflen A') sydd ar gael yn y weithdrefn hon.

3.3 Rhaid i geisiadau am Gadarnhad gynnwys manylion am unrhyw ddiffygion neu afreoleidd-dra honedig yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad, mewn unrhyw gyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor sy'n gysylltiedig â'r Asesiad, neu unrhyw amgylchiadau personol eithriadol a (os yw hynny'n briodol) phryd yn union cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi y rhoddwyd gwybod am yr amgylchiadau hyn.

3.4 Ar ôl derbyn y cais ysgrifenedig bydd y CSA yn rhoi gwybod i'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd ac yn gofyn i Gadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol ('y Cadeirydd') gymryd y camau angenrheidiol i Gadarnhau'r ffeithiau mae'r cais yn cyfeirio atynt. Ar yr un pryd bydd y CSA, o fewn 5 diwrnod gwaith, yn cydnabod yn ysgrifenedig ei fod wedi derbyn y cais ac yn rhoi gwybod i'r dysgwr pa gamau fydd yn cael eu cymryd.

3.5 Bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod y ffeithiau'n cael eu cadarnhau o fewn:

- i. **wyth wythnos** o ddyddiad cais sy'n deillio o benderfyniad Bwrdd Arholi a wnaed ym mis Mehefin,
- ii. **pedair wythnos** o ddyddiad cais sy'n deillio o benderfyniad Bwrdd Arholi a wnaed ym mis Medi.

3.6 Ar ôl i'r ymchwiliad gael ei gwblhau bydd y Cadeirydd yn cymryd y camau canlynol:

i. **Os bydd y Weithdrefn Gadarnhau yn dynodi bod:**

- a. gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol arall wedi digwydd;
- b. amgylchiadau personol eithriadol y rhoddodd y dysgwr wybod amdanynt **cyn** cyfarfod y Bwrdd Arholi dan sylw **heb gael** eu hystyried yn y cyfarfod;
- c. y dysgwr, wrth ofyn am Gadarnhad, wedi darparu **tystiolaeth ychwanegol** o amgylchiadau personol eithriadol **a oedd** eisoes yn hysbys cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi;
- d. y dysgwr, wrth ofyn am Gadarnhad, wedi darparu **tystiolaeth ychwanegol** o amgylchiadau personol eithriadol **nad oeddent** eisoes yn hysbys cyn cyfarfod y Bwrdd Arholwyr; **ac**, wedi egluro'n foddhaol pam nad oedd y dystiolaeth hon ar gael ar y pryd;
- e. y dysgwr wedi darparu dystiolaeth o ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu mewn cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad **nad oedd** y Bwrdd Arholi **yn ymwybodol ohonynt**;

Bydd Panel Cadarnhau yn cael ei alw gan y Cadeirydd cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl i ailasesu perfformiad y dysgwr yn yr Asesiad. Y Cadeirydd fydd Cadeirydd y Panel Cadarnhau a'r aelodau eraill fydd:

- Cadeirydd o leiaf un o'r Byrddau Arholi eraill,

- Y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd,
- Y Rheolwr Sicrhau Ansawdd,
- Pennaeth y Gofrestrfa,
- rhywun i gymryd y cofnodion, ac
- unrhyw unigolyn angenrheidiol arall y cred y Panel bod angen iddo fod yno.

Bydd gan y Panel Cadarnhau'r awdurdod i weithredu fel y Bwrdd Arholi ar gyfer ailystyried perfformiad y dysgwr yn yr Asesiad.

Yn dilyn y Panel Cadarnhau bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Rheolwr Sicrhau'r Ansawdd yn ysgrifenedig o'r canlyniad gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymateb ('Ffurflen C'). Bydd y CSA yn hysbysu'r dysgwr yn ysgrifenedig o'r canlyniad ac yn rhoi gwybod pa gamau fydd yn cael eu cymryd. Ar yr un pryd bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r CSA drefnu i gyhoeddi unrhyw restr lwyddo atodol yn ôl yr angen.

Os bydd y Panel Cadarnhau yn newid penderfyniad y Bwrdd Arholi fe hysbysir y Bwrdd Arholi yn ffurfiol o'r newid yn ei gyfarfod nesaf. I ddibenion cofnodi gwneir yr hysbysiad ar ffurf eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfod. Bydd y Cadeirydd yn darparu copi o'r Ffurflen Ymateb a gwblhawyd i'r Bwrdd Arholi.


ii. **Os bydd y Weithdrefn Gadarnhau yn dynodi:**

- a. na fu **unrhyw** wall rhifyddol neu wall ffeithiol arall;
- b. bod unrhyw amgylchiadau personol eithriadol y rhoddodd y dysgwr wybod amdanynt **eisoes** wedi cael eu hystyried;
- c. bod y dysgwr wedi darparu tystiolaeth ychwanegol o amgylchiadau personol eithriadol nad oeddent yn hysbys cyn cyfarfod y Bwrdd Arholwyr, **ond heb** egluro'n foddhaol pam nad oedd y dystiolaeth hon ar gael ar y pryd;
- d. ni fu **unrhyw** ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad; neu
- e. bod **yna** ddiffygion neu afreoleidd-dra megis a ddisgrifir yn 3.6(i)(e) ond bod y Bwrdd Arholwyr **eisoes wedi** eu hystyried;

bydd y Cadeirydd yn hysbysu'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd yn ysgrifenedig o'r casgliad gan ddefnyddio'r Ffurflen Ymateb ('Ffurflen C'). Yna bydd y CSA yn hysbysu'r dysgwr yn ysgrifenedig o'r casgliad. Bydd y llythyr hefyd yn nodi bod:

- gan y dysgwr hawl i Apelio;
- na ellir apelio ond ar y seiliau a nodir yn 4.4 isod; a
- bod rhaid i apêl o'r fath gyrraedd y CSA o fewn yr amser a nodir yn 4.1 isod.
- Rhaid amgáu copi o'r Weithdrefn hon gyda'r llythyr hwnnw.

Siart Llif o'r Broses Gadarnhau



¹ Sy'n dechrau ar y dyddiad pan gyhoeddir penderfyniadau'r Bwrdd Arholi perthnasol.

² Pedair wythnos o ddyddiad cais sy'n deillio o benderfyniad a wnaed gan Fwrdd Arholi ym mis Medi ac wyth wythnos o ddyddiad cais sy'n deillio o benderfyniad o wnaed ym mis Mehefin.

4. Gweithdrefn Apelio

4.1 Nid oes gan ddysgwyr hawl i Apelio ond yn erbyn penderfyniadau a wnaed yn dilyn y broses Gadarnhau uchod. Rhaid anfon unrhyw Apêl yn llawn ac yn ysgrifenedig (gan ddefnyddio 'Ffurflen B' ar gefn y Weithdrefn hon) at y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd ('CSA'):

i. **o fewn 10 diwrnod gwaith** o ddyddiad anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniadau'r broses Gadarnhau at y dysgwr.

4.2 Gall ceisiadau a dderbynnir wedi'r cyfnod hwn gael eu derbyn os yw'r CSA yn credu bod rheswm da dros wneud hynny.

4.3 Nid ystyrir bod hysbysiad syml o rybudd i Apelio a wneir o fewn y terfyn amser uchod (e.e. e-bost gan y dysgwr yn nodi ei fod yn dymuno Apelio) yn gyfwerth ag Apêl briodol ac ni chaiff ei dderbyn.

4.4 Dim ond Apeliadau sy'n seiliedig ar un neu ragor o'r canlynol y mae'r Grŵp yn barod i'w hystyried:

i. **gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill a amharodd ar Ganlyniad y dysgwr;**

ii. **diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad.**

Rhaid i'r dysgwr ddarparu digon o dystiolaeth gyda'r cais fydd (os na chaiff ei gwrthbrofi) yn dangos y gallai diffygion, afreoleidd-dra neu gyngor o'r fath fod wedi amharu ar ei berfformiad.

iii. **amgylchiadau personol eithriadol a allai fod wedi amharu ar berfformiad y dysgwr.**

Rhaid i'r dysgwr ddarparu digon o dystiolaeth gyda'r cais fydd (os na chaiff ei gwrthbrofi) yn dangos y gallai'r amgylchiadau personol eithriadol fod wedi amharu ar ei berfformiad. Os na hysbyswyd y Bwrdd Arholi o'r amgylchiadau hyn cyn ei gyfarfod rhaid i'r dysgwr ddangos rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Os na all y dysgwr roi rheswm da ni all ddefnyddio'r amgylchiadau fel sail dros apelio.

4.5 **Hysbysir dysgwyr na fydd Apeliadau sy'n cwestiynu dyfarniad academiaidd yr Arholwyr yn dderbyniol.**

4.6 Ar ôl derbyn Apêl bydd y CSA yn cydnabod ei fod wedi ei apêl derbyn ac yn hysbysu'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd, fel rheol **o fewn pum niwrnod gwaith** ac yn anfon yr apêl ymlaen yn syth at Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academiaidd ynghyd â'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i gais y dysgwr am Gadarnhad.

4.7 Bydd Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academiaidd, neu'r sawl a enwebir ganddo, yn ymchwilio i'r Apêl ac, os yw hynny'n berthnasol i amgylchiadau'r achos, yn ymgynghori â PC Maes Rhaglen y dysgwr neu â Chadeirydd y Bwrdd Arholi perthnasol.

4.8 Bydd y CSA (ar y cyd â'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd) yn sicrhau bod y dysgwr yn derbyn adroddiad cynnydd ysgrifenedig **o fewn 25 diwrnod gwaith** o dderbyn y cais am Apêl.

4.9 Fel rheol, mae'n ofynnol i Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academiaidd wrthod unrhyw Apêl **o fewn tri mis** o'i derbyn os yw'n:

i. seiliedig ar ffactorau a oedd yn hysbys i'r Bwrdd Arholi dan sylw pan benderfynwyd Canlyniad y dysgwr;

ii. cyflwyno gwybodaeth a oedd yn hysbys i'r dysgwr, ac y gallasai fod wedi ei dwyn i sylw'r Bwrdd Arholi cyn y cyfarfod,

ac os nad yw'r dysgwr yn rhoi rheswm boddhaol dros fod wedi peidio â gwneud hynny;

iii. cwestiynu dyfarniad academiaidd y Bwrdd Arholi.

***Noder:** Os gwrthodir ceisiadau dysgwyr ar y cam hwn gallant wneud cais pellach i'r Sefydliad Dyfarnu priodol yn unol ag Adran 5. Bydd y CSA yn hysbysu'r dysgwr bod y cais wedi cael ei wrthod **o fewn 5 diwrnod gwaith** o ddyddiad y penderfyniad i wrthod yr Apêl.*

- 4.10 Os yw Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academiaidd neu'r sawl a enwebir ganddo'n penderfynu bod digon o dystiolaeth i'r achos gael ei ystyried, bydd yn cael ei gyfeirio at Fwrdd Apêl y Grŵp.
- 4.11 Bydd y Bwrdd Apêl yn cynnwys Uwch Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Academiaidd neu'r Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd a Pherfformiad (fydd yn gweithredu fel Cadeirydd) ynghyd â dau Bennaeth Cynorthwyol nad ydynt wedi ymwneud â'r achos o'r blaen. Fel rheol bydd hyn yn digwydd **o fewn tri mis** o dderbyn y cais am Apêl.
- 4.12 Bydd y Bwrdd Apêl yn enwebu aelod o staff y Gwasanaethau Academiaidd i gofnodi'r gwrandawriad Apêl.
- 4.13 Bydd y Bwrdd Apêl yn cynnig gwrandawriad personol i'r dysgwr, a chaiff y dysgwr wybod ymlaen llaw am amser a dyddiad y cyfarfod. Caiff y dysgwr fynd ag aelod o staff academiaidd, lles neu ymgynghorol y Grŵp, neu fyfyrwr neu swyddog o Undeb y Myfyrwyr gydag ef i'r cyfarfod, ond fel rheol ni chaiff ei gynrychioli ganddynt. Ni chaiff y dysgwr fynd ag unrhyw unigolyn arall i'r Bwrdd Apêl ac ni chaiff anfon neb arall i'r gwrandawriad yn ei le. Gofynnir i'r dysgwr ymlaen llaw a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os bydd angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i fodloni cais y dysgwr, hysbysir y dysgwr am hyn cyn y cyfarfod.
- 4.14 Disgwylir i'r maes rhaglen dan sylw anfon aelod o'i staff i fod yn bresennol yn y gwrandawriad ac, ar wahoddiad Cadeirydd y Bwrdd Apêl, gyfrannu at y gwrandawriad.
- 4.15 Bydd y Bwrdd Apêl yn seilio ei benderfyniad ar y dystiolaeth a geir yng nghyflwyniad y dysgwr a thystiolaeth Cadeirydd y Bwrdd Arholi dan sylw, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall a ystyria'n berthnasol.
- 4.16 Mae gan y Bwrdd Apêl hawl i eithrio unrhyw fater a gyflwynir gan y dysgwr, neu gan unrhyw un sydd wedi dod gyda'r dysgwr, os yw o'r farn nad yw'r mater yn uniongyrchol berthnasol i gynnwys cais y dysgwr am Apêl.
- 4.17 Rhoddir gwybod am benderfyniad y Bwrdd Apêl i Gadeirydd y Bwrdd Arholi a'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd **o fewn 5 diwrnod gwaith**. Bydd y CSA yn hysbysu'r dysgwr yn ysgrifenedig o'r canlyniad o fewn **5 diwrnod gwaith pellach**.
- 4.18 Bydd gan y Bwrdd Apêl y grym i wneud un o'r penderfyniadau canlynol:
- i. gwrthod yr Apêl a mynnu na chymerir unrhyw gamau pellach; neu
 - ii. ganiatáu'r Apêl a chyfeirio'r mater yn ôl i'r Panel Cadarnhau.
- 4.19 Yn achos 4.18(i) uchod bydd penderfyniad y Bwrdd Apêl yn derfynol ac ystyrir y mater wedi'i gwblhau. Ni fydd trafodaeth ar benderfyniad y Bwrdd Apêl â'r dysgwr nac â neb arall.
- 4.20 Yn achos 4.18(ii) uchod, bydd adroddiad llawn, yn cynnwys argymhellion neu gyngor lle y bo hynny'n briodol yn ôl amgylchiadau'r achos (gan gynnwys yr holl ddogfennau atodol) yn cael ei anfon i'r Panel Cadarnhau.

- i. Yn achos 4.18(ii) uchod, bydd perfformiad y dysgwr yn yr asesiad yn cael ei ailystyried gan y Bwrdd Cadarnhau **o fewn 14 diwrnod** o'r dyddiad y derbyniwyd penderfyniad y Bwrdd Apêl.
- 4.21 Os caiff yr achos ei gyfeirio'n ôl i'r Panel Cadarnhau, gall y Bwrdd Apêl, lle bo hynny'n briodol yn ôl amgylchiadau'r achos, ofyn am i swyddog o Brifysgol Bangor, Pearson neu Edexcel fod yn bresennol yn y cyfarfod fel sylwedydd. Mewn achosion eithriadol yn unig, gall y Bwrdd Apêl hefyd newid cyfansoddiad y Panel Cadarnhau.
- 4.22 I ddibenion ailystyried perfformiad dysgwr mewn Asesiad yn dilyn Apêl lwyddiannus, bydd gan y Panel Cadarnhau'r awdurdod i weithredu fel Bwrdd Arholi.
- 4.23 Bydd Cadeirydd y Panel Cadarnhau yn anfon penderfyniad y Panel Cadarnhau (sydd i'w gofnodi ar 'Ffurflen C'), ynghyd â chopi o'r cofnod perthnasol, at y Rheolwr Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Apêl **o fewn 10 diwrnod gwaith** o ddyddiad gwrandawriad y Panel Cadarnhau.
- 4.24 Bydd y CSA yn hysbysu'r dysgwr o benderfyniad y Panel Cadarnhau **o fewn 5 diwrnod gwaith** o'r dyddiad pryd y derbyniwyd y penderfyniad ynghyd â'r rhesymau am y penderfyniad.
- 4.25 Bydd penderfyniad y Panel Cadarnhau ynghylch p'un a dylid gwneud unrhyw addasiadau neu beidio i'r marciau neu raddau a ddyfarnwyd yn derfynol. Os daw i'r amlwg bod afreoleidd-dra difrifol wedi digwydd yn y drefn, gall y Rheolwr Sicrhau Ansawdd gyfeirio'r achos yn ôl at Gadeirydd y Bwrdd Apêl.
- 4.26 Efallai y bydd penderfyniad y Panel Cadarnhau i addasu, neu beidio ag addasu, marciau neu raddau a ddyfarnwyd yn newid Canlyniad cyffredinol y dysgwr yn yr Asesiad, ond efallai na fydd. Os addesir y Canlyniad cyffredinol, bydd Cadeirydd y Bwrdd Arholi yn trefnu bod y CSA yn cyhoeddi unrhyw restr lwyddo atodol yn ôl yr angen.
- 4.27 Os penderfyna'r Panel Cadarnhau, ar ôl Apêl lwyddiannus, fod y dysgwr wedi cynhwyso ar gyfer gradd, cyflwynir y radd honno i'r dysgwr dan sylw yn y Seremoni Raddio nesaf.
- 4.28 Bydd gan y Panel Cadarnhau'r awdurdod i ddyfarnu bod gan ddysgwr sydd eisoes wedi ennill y radd yr hawl i gael gradd o ddosbarth gwahanol os penderfyna'r Panel Cadarnhau, yn dilyn Apêl lwyddiannus, y dylid diwygio dosbarth gradd y dysgwr. Mewn achosion o'r fath, bydd y Grŵp yn trefnu i roi tystysgrif newydd i'r dysgwr ar ôl iddo anfon y dystysgrif wreiddiol yn ôl.
- 4.29 Lle bo hynny'n berthnasol, gwneir trefniadau priodol yng nghyswllt dysgwr y mae'r Panel Cadarnhau o'r farn, ar ôl apêl lwyddiannus, ei fod wedi cymhwyso ar gyfer tystysgrif neu ddiploma.
- 4.30 Os bydd y Panel Cadarnhau yn newid unrhyw farciau neu raddau a ddyfarnwyd gan y Bwrdd Arholi, fe nodir y newid yn ffurfiol ar Ffurflen Ymateb (Ffurflen 'C') a rhoddir copi i'r Bwrdd Arholi yn ei gyfarfod nesaf.


5. Apeliadau Pellach

- 5.1 Os bydd dysgwr yn dymuno Apelio yn erbyn penderfyniad y Bwrdd Apêl, rhaid iddo wneud Apêl bellach i Brifysgol Bangor,

Pearson neu Edexcel. Bydd Apêl o'r fath yn digwydd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Sefydliad Dyfarnu dan sylw.

5.2 Dim ond ar ôl cwblhau'r holl Weithdrefnau yn y ddogfen hon y gall dysgwr gyflwyno Apêl o dan 5.1

Siart Llif o'r Broses Gadarnhau



FFurflen A: FFURFLEN GAIS AM GADARNHAD

Cadarnhad yw cam cyntaf y Weithdrefn Gadarnhau ac Apelio

Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen y Weithdrefn Gadarnhau ac Apelio cyn llenwi'r ffurflen hon. Mae'r Weithdrefn hon yn berthnasol i:

- i. ddysgwyr yng Ngrŵp Llandrillo Menai (y Grŵp) sy'n cwblhau graddau sylfaen neu raddau atodol a ddilysir gan Brifysgol Bangor, y Rhaglen Sylfaen Ryngwladol, Tystysgrifau Cenedlaethol a Diplomau Uwch (HNC/HND) a ddilysir gan Pearson Edexcel a Dyfarniadau Datblygiad Proffesiynol a,
- ii. dysgwyr sydd wedi derbyn unrhyw un o'r uchod fel cymhwyster gadael gan y Grŵp yn dilyn cwblhau neu gwblhau'n rhannol raglen AU a ddilysir gan Brifysgol Bangor, Pearson neu Edexcel.

Rhaid anfon ceisiadau am Gadarnhad at y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd:

Grŵp Llandrillo Menai
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
LL28 4HZ

Dylai'r cais gyrraedd o fewn 10 diwrnod, fan bellaf, ar ôl dyddiad cyhoeddi penderfyniadau'r Bwrdd Arholi perthnasol. Dylid teipio'r ffurflen, neu ei llenwi ag inc du.

Unwaith y bydd y Cadarnhad wedi'i gwblhau, cewch wybod am y canlyniad ac, os yw hynny'n berthnasol, cewch Ffurflen Gais i'ch galluogi i gyflwyno Apêl i'r Grŵp.

Enw'r Dysgwr:	
Rhif Adnabod y Dysgwr:	
Cyfeiriad ar gyfer POB Gohebiaeth:	
Cwrs:	
Penderfyniad y Bwrdd Arholi	

Dymunaf geisio Cadarnhad fel a ganlyn (ticiwch un neu fwy o'r blychau perthnasol):

- i) nad yw'r Canlyniad a gyhoeddir gan y Grŵp yn cynnwys gwallau rhifyddol na gwallau ffeithiol eraill;
(cwblhewch adran 1 isod)
- ii) bod yr Arholwyr yn ymwybodol o amgylchiadau personol eithriadol a allai, yn fy marn i, fod wedi amharu er fy mherfformiad academiaidd a'u bod wedi ystyried yr amgylchiadau hyn;
(cwblhewch adran 2 isod)
- iii) bod yr Arholwyr yn ymwybodol o ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad, neu mewn cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad, pan allai diffygion, afreoleidd-dra a chyngor o'r fath fod wedi, yn fy marn i, amharu ar fy mherfformiad academiaidd
(cwblhewch adran 3 isod)

Nodwch na chaniateir ceisiadau am Gadarnhad am unrhyw resymau eraill.

Adran 1:
Os ydych yn ceisio Cadarnhad oherwydd eich bod yn credu bod gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill wedi amharu ar eich Canlyniad:

1.1 - nodwch pam eich bod yn credu bod y Canlyniad a gyhoeddwyd gan y Grŵp yn cynnwys gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill, gan restru unrhyw Asesiad(au) cysylltiedig. *(Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen)*

Adran 2:

Os ydych yn ceisio Cadarnhad am eich bod yn credu y gallai amgylchiadau personol eithriadol fod wedi amharu ar eich perfformiad academaidd:

2.1 - Disgrifiwch yr amgylchiadau personol eithriadol y credwch y gallent fod wedi amharu ar eich perfformiad yn yr Asesiad a pham. Amgawch unrhyw dystiolaeth feddygol neu unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall i gefnogi'ch cais. **Os na hysbyswyd y Bwrdd Arholi o'r amgylchiadau hyn cyn ei gyfarfod, cwblhewch Adran 2.2.** *(Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen).*

2.2 - Os na hysbyswyd y Bwrdd Arholi perthnasol o'r amgylchiadau personol eithriadol cyn ei gyfarfod, nodwch y rhesymau pam na wnaethoch roi gwybod am eich amgylchiadau personol i'r Bwrdd Arholi cyn ei gyfarfod. *(Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen).*

Adran 3:

Os ydych yn ceisio Cadarnhad am eich bod yn credu bod diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad a allai fod wedi amharu ar eich perfformiad academaidd:

3.1 - Disgrifiwch y diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad a allai fod wedi amharu ar eich perfformiad academaidd. Amgawch dystiolaeth i gefnogi'ch cais. (*Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen*).

Ydych chi o'r farn bod gennych Anabledd?

Ystyr hyn i'r Grŵp yw: "nam corfforol neu feddyliol tymor hir sy'n amharu'n sylweddol ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd".

Oes/Nac oes

Dileer fel y bo'n briodol

Ydych chi'n dymuno i unrhyw addasiadau rhesymol gael eu gwneud i unrhyw ran o'r broses Apêl?

Ydw / Nac ydw

Dileer fel y bo'n briodol

Os Ydych, rhowch fanylion unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnoch.

Rwy'n datgan fy mod wedi darllen Gweithdrefn Gadarnhau ac Apelio'r Grŵp, a bod unrhyw wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon, ac ar unrhyw bapurau amgaeedig, yn ddatganiad ffeithiol gywir.

Llofnod:

Dyddiad:

Rhaid i unrhyw gyfathrebu a fo'n ymwneud â'r Cadarnhad, tra ymdrinnir ag ef, fod yn ysgrifenedig, a'i gyfeirio at:

Y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd
Grŵp Llandrillo Menai
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
LL28 4HZ

FFURFLEN B: FFURFLEN GAIS I APELIO YN ERBYN PENDERFYNIAD BWRDD ARHOLI AR ÔL CADARNHAD

Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan ddysgwyr sy'n dymuno Apelio i'r Grŵp yn erbyn penderfyniad Bwrdd Arholi.

Dylid teipio'r ffurflen, neu ei llenwi ag inc du, a'i hanfon at y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd i gyrraedd o fewn:

- i. **deg diwrnod gwaith** o ddyddiad anfon yr hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniadau'r broses Gadarnhau at y dysgwr.

Dylai dysgwyr ddarllen Gweithdrefn Wirio a Chadarnhau'r Grŵp yn ofalus, gan roi sylw arbennig i'r rhesymau y gellir seilio Apêl arnynt. **Ni all dysgwyr apelio am y rheswm eu bod yn anfodlon neu'n siomedig ynglŷn â chanlyniad arholiad.**

Rhaid nodi rhesymau'r Apêl yn glir ac yn gryno. Rhaid amgáu unrhyw fanylion ychwanegol, os oes rhai, ac unrhyw dystiolaeth ddogfenol berthnasol, pa un ai a yw'n feddygol neu fel arall.

Enw'r Dysgwr:	
Rhif Adnabod y Dysgwr:	
Cyfeiriad:	
Cwrs:	
Nodwch pa benderfyniad gan y Bwrdd Arholi yr ydych yn Apelio yn ei erbyn:	
Nodwch yn gryno'r rhesymau dros eich Apêl:	
Adran 1: Os ydych yn Apelio oherwydd eich bod yn credu bod gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill wedi amharu ar eich Canlyniad:	
1.1 - nodwch pam eich bod yn credu bod y Canlyniad a gyhoeddwyd gan y Grŵp yn cynnwys gwallau rhifyddol neu wallau ffeithiol eraill, gan restru unrhyw Aseiad(au) cysylltiedig. <i>(Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen)</i>	
Adran 2:	
Os ydych yn Apelio am eich bod yn credu y gallai amgylchiadau personol eithriadol fod wedi amharu ar eich perfformiad academiaidd:	

2.1 - Disgrifiwch yr amgylchiadau personol eithriadol y credwch y gallent fod wedi amharu ar eich perfformiad yn yr Asesiad a pham. Amgawch unrhyw dystiolaeth feddygol neu unrhyw dystiolaeth ddogfennol arall i gefnogi'ch cais. **Os na hysbyswyd y Bwrdd Arholi o'r amgylchiadau hyn cyn ei gyfarfod, cwblhewch Adran 2.2.** (*Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen*).

2.2. - Os na hysbyswyd y Bwrdd Arholi perthnasol o'r amgylchiadau personol eithriadol cyn ei gyfarfod, nodwch y rhesymau pam na wnaethoch roi gwybod am eich amgylchiadau personol i'r Bwrdd Arholi cyn ei gyfarfod. (*Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen*).

Adran 3:

Os ydych yn Apelio am eich bod yn credu bod diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad a allai fod wedi amharu ar eich perfformiad academaidd:

3.1 - Disgrifiwch y diffygion neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Aseiad neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Aseiad a allai fod wedi amharu ar eich perfformiad academaidd. Amgawch dystiolaeth i gefnogi'ch cais. (*Parhewch ar ddalen ar wahân, os oes angen*).

<p>Ydych chi o'r farn bod gennych Anabledd? <i>Ystyr hyn i'r Grŵp yw: "nam corfforol neu feddyliol tymor hir sy'n amharu'n sylweddol ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd".</i></p>	<p>Oes/Nac oes Dileer fel y bo'n briodol</p>
--	---

<p>Ydych chi'n dymuno i unrhyw addasiadau rhesymol gael eu gwneud i unrhyw ran o'r broses Apêl?</p>	<p>Ydw / Nac ydw Dileer fel y bo'n briodol</p>
--	---

Os Ydych, rhowch fanylion unrhyw addasiadau rhesymol sydd eu hangen arnoch.

Rwy'n datgan fy mod wedi darllen Gweithdrefn Gadarnhau ac Apelio'r Grŵp, a bod unrhyw wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon, ac ar unrhyw bapurau amgaeedig, yn ddatganiad ffeithiol gywir.

<p>Llofnod:</p>	<p>Dyddiad:</p>
------------------------	------------------------

Rhaid i unrhyw gyfathrebu a fo'n ymwneud â'r Apêl, tra ymdrinnir â hi, fod yn ysgrifenedig, a'i gyfeirio at:

Y Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd
Grŵp Llandrillo Menai
Ffordd Llandudno
Llandrillo-yn-Rhos
LL28 4HZ

FFURFLEN C: FFURFLEN YMATEB Y CADEIRYDD YN DILYN CAIS AM GADARNHAD NEU ARWEINIAD GAN Y BWRDD APÊL

Enw'r Dysgwr			
Rhif Adnabod y Dysgwr			
Enw'r Cadeirydd			
Llofnod y Cadeirydd		Dyddiad:	
Galwyd y Panel yn Dilyn: (Ticiwch y Blwch Priodol)	CAIS AM GADARNHAD		ARWEINIAD GAN Y BWRDD APÊL

Dewiswch **un** o'r opsiynau canlyno a thiciwch y blwch / blychau perthnasol i nodi pam y dewiswyd yr opsiwn hwnnw. Gellir atodi esboniad a / neu dystiolaeth atodol i'r ffurflen hon os oes angen:

<u>Opsiwn 1</u> Galwyd Panel Cadarnhau i ailystyried Asesiad y dysgwr oherwydd:	
Bod gwall rhifyddol neu wall ffeithiol arall wedi digwydd;	
bod amgylchiadau personol eithriadol y rhoddodd y dysgwr wybod amdanynt cyn i'r Bwrdd Arholi dan sylw gyfarfod <u>heb</u> gael eu hystyried yn y cyfarfod;	
Bod y dysgwr, wrth ofyn am Gadarnhad, wedi darparu <u>tystiolaeth ychwanegol</u> o amgylchiadau personol eithriadol oedd eisoes yn hysbys <u>cyn</u> cyfarfod y Bwrdd Arholi dan sylw;	
Bod y dysgwr, wrth ofyn am Gadarnhad, wedi darparu <u>tystiolaeth ychwanegol</u> o amgylchiadau personol eithriadol <u>nad oeddynt</u> eisoes yn hysbys cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi <u>ac</u> , wedi egluro'n foddhaol pam nad oedd y dystiolaeth hon ar gael ar y pryd;	
Bod y dysgwr <u>wedi darparu</u> <u>tystiolaeth o ddiffygion</u> neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu mewn cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad nad oedd y Bwrdd Arholi yn ymwybodol ohonynt	
Rheswm arall (rhowch fanylion)	
Rhan 3 - Cwblhewch Adran 3	

<u>Opsiwn 2</u> Ni alwyd Panel Cadarnhau i ailystyried Canlyniad Asesiad y dysgwr oherwydd:	
Na fu <u>unrhyw</u> wall rhifyddol neu wall ffeithiol arall;	


Roedd yr amgylchiadau personol eithriadol y rhoddodd y dysgwr wybod amdanynt <u>eisoes</u> wedi cael eu hystyried;	
Roedd y dysgwr wedi darparu tystiolaeth o amgylchiadau personol eithriadol <u>nad oeddynt</u> eisoes yn hysbys cyn cyfarfod y Bwrdd Arholi, <u>ond heb</u> egluro'n foddhaol pam nad oedd y dystiolaeth hon ar gael ar y pryd;	
Nid oedd <u> unrhyw ddiffygion</u> neu afreoleidd-dra yn y modd y cynhaliwyd yr Asesiad neu yn y cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn ymwneud â'r Asesiad.	
Roedd <u>yna ddiffygion</u> neu afreoleidd-dra ond roedd y Bwrdd Arholi <u>eisoes wedi eu hystyried</u> ;	
Rheswm arall (rhowch fanylion)	
Rhan 3 Yn dilyn ei gyfarfod mae'r Panel Cadarnhau wedi gwneud y penderfyniad(au) canlynol yng nghyswllt y dysgwr hwn:	

Yn dilyn cais am Gadarnhad rhaid i'r ffurflen hon gael ei chadw gan Gadeirydd y Panel Cadarnhau a dylid anfon copïau at y Rheolwr Sicrhau Ansawdd a'r Cydlynnydd Sicrhau Ansawdd (ac i'r Bwrdd Apêl hefyd mewn achos o Apêl). Rhaid sicrhau bod copi ar gael hefyd yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Arholi.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Gwennan Richards	Dyddiad:	20/01/2022
----------------------------------	------------------	-----------------	------------


Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / rheoliadau arbennig
Pa grwpiau a warchodir a allai fod dan anfantais yn sgil y polisi neu'r broses?	Ni fydd unrhyw grwpiau a warchodir dan anfantais yn sgil y polisi hwn. Mae'r polisi yn nodi proses deg ar gyfer delio â phryderon myfyrwyr am benderfyniad academiaidd Bwrdd Arholi.	
Pa grwpiau a warchodir a allai gael budd o'r polisi neu'r broses?	Bydd y polisi o fudd i'r holl grwpiau a warchodir am ei fod yn sicrhau y bydd gan bob un o fyfyrwyr AU Grŵp Llandrillo Menai yr hawl i ofyn am adolygiad, neu apelio yn erbyn, penderfyniad academiaidd Bwrdd Arholi.	
A yw'r polisi'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn meithrin cysylltiadau da?	Ydy, mae'r polisi yn sicrhau y caiff yr holl fyfyrwyr AU eu trin yn deg ac yn gyfartal.	
A allai unrhyw ran o'r broses wahaniaethu'n anghyfreithlon?	Nid os cedwir yn llawn at y polisi	
A oes polisiau eraill y mae angen eu newid er mwyn ategu effeithiolrwydd yr un hwn?	Na	
Casgliad	Parhau â'r polisi neu'r weithdrefn	

LLOFNODWYD:		Dyddiad:	20/01/2022
--------------------	---	-----------------	------------

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Cwblhawyd yr asesiad gan:	Gwennan Richards	Dyddiad:	20/01/2022
----------------------------------	------------------	-----------------	------------

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / rheoliadau arbennig
Pa effeithiau cadarnhaol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	<p>Mae'r polisi yn nodi proses deg ar gyfer delio â phryderon myfyrwyr am benderfyniad academaidd Bwrdd Arholi. Yn ôl eu hawliau dan Safonau'r Iaith Gymraeg, gall myfyrwyr gyflwyno cais am gadarnhad neu apêl yn Gymraeg (ffurflenni Cymraeg ar gael) a derbyn ateb yn Gymraeg.</p> <p>Fel rhan o'r broses apêl, bydd modd i'r Bwrdd Apêl gynnig gwrandawriad personol i'r myfyriwr. Yn yr achosion hyn bydd gan y dysgwyr yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfodydd hyn.</p>	Yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg (Safonau Darparu Gwybodaeth) wrth wahodd myfyrwyr i gyfarfod, megis panel apêl, rhaid i GLIM ofyn i'r myfyrwyr a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Os bydd angen darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i fodloni cais y dysgwr, rhaid rhoi gwybod i'r myfyriwr am hyn.
Pa effeithiau negyddol gaiff gweithredu'r polisi neu'r weithdrefn ar y defnydd o'r Gymraeg?	Ni chredir y bydd y polisi'n cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.	
A oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i weithredu'r polisi neu'r weithdrefn?	Oes, mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg i sicrhau y gellir gweithredu'r polisi/gweithdrefnau yn Gymraeg. Os bydd myfyriwr yn gwneud cais i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod/panel a bod aelodau di-Gymraeg yn bresennol hefyd, bydd tîm cyfieithu'r Grŵp yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.	
Os nad oes, pa gamau a gymerir i sicrhau bod digon o staff ar gael, ac erbyn pryd?	n/a	
A yw'r polisi neu'r weithdrefn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg/Strategaeth Iaith Grŵp Llandrillo Menai?	Y	
Casgliad	<p>Addasu'r polisi - argymhellir addasu adran 4.13 i gynnwys datganiad yn nodi hawliau myfyrwyr dan safonau'r iaith Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw gyfweiliad neu banel. (gweler Hysbysiad cydymffurfio, safonau 24 – 29)</p> <p>02/02/2022 – Addaswyd y polisi i ystyried yr uchod, parhau â'r polisi.</p>	

LLOFNODWYD:		Dyddiad:	20/01/2021
--------------------	---	-----------------	------------

Asesiad o'r Effaith ar Gynaliadwyedd

Cwblhawyd yr asesiad gan:		Dyddiad:	
Cymeradwywyd yr asesiad gan:		Dyddiad:	

Ystyriaeth	Ymateb	Gofynion / rheoliadau arbennig
Sut fydd y polisi hwn yn effeithio ar strategaeth cynaliadwyedd y Grŵp?		
Casgliad		

LLOFNODWYD:		Dyddiad:	
--------------------	--	-----------------	--

FFURFLEN MANYLION POLISI
POLICY IDENTIFICATION FORM /FRONTSHEET

TEITL Y POLISI: <i>POLICY TITLE:</i>	<i>Assessment in HE Policy</i>
UWCH-GYFARWYDDWR A CHYFRIFOLDEB: <i>RESPONSIBLE EXECUTIVE DIRECTOR:</i>	<i>James Nelson</i>
PWRPAS: <i>PURPOSE:</i>	
EFFAITH AR DDWYIEITHRWYDD <i>IMPACT ON BILINGUALISM</i>	<i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i>
EFFAITH AR GYDRADDOLDEB <i>IMPACT ON EQUALITY</i>	<i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i>
EFFAITH AR GYNALIADWYEDD <i>IMPACT ON SUSTAINABILITY</i>	<i>Please refer to Impact Assessment at the end of the document</i>
ARGYMHELLIAD: <i>RECOMMENDATION:</i>	<i>To approve</i>
CYFATHREBU <i>COMMUNICATION</i>	<i>Tîm Strategol, Grŵp Portal</i>
PWLLGOR / GRŴP MONITRO: <i>COMMITTEE / GROUP RESPONSIBLE FOR MONITORING:</i>	<i>Tim Polisi</i> <i>CSSC</i> <i>Board</i>
CYMERADWYWYD GAN (A'R DYDDIAD): <i>APPROVED BY (AND DATE):</i>	<i>Tim Strategol – 11/10/2021</i> <i>CSSC – 03/11/2021</i> <i>Board – 11/11/2021</i>
DYDDIAD ADOLYGU <i>REVIEW DATE CYCLE:</i>	<i>Bi-Annually</i>

Higher Education Assessment Confirmation and Appeals Policy

This policy applies to Bangor University Degrees validated for Grŵp Llandrillo Menai Higher Education Programmes

Purpose of this Policy

Grŵp Llandrillo-Menai (the Grŵp) recognises and upholds the principle that Students should have a mechanism by which academic decisions can be reviewed. This Policy is intended to provide such a mechanism by allowing Students, on validated HE programmes, to apply to the Grŵp to have decisions made concerning their progression and classification checked and, to allow for appeal if necessary.

Students are advised however that this Policy (and its accompanying Procedure) is **only** to be used to Confirm and Appeal an academic decision of a Board of Examiners; it is **not** to be used to raise a complaint or to appeal against an individual assessment grade. Students seeking to raise a complaint should refer to the Complaints Procedure which is available bilingually on the Grŵp Portal.

This Procedure should also **not** be used to appeal a decision reached under any of the Grŵp's **other procedures** which have their own appeals process e.g. the Unfair Practice, Extenuating Circumstances or Disciplinary Procedures.

Any application for Confirmation or Appeal which solely questions the academic judgment of a Board of Examiners will not be accepted e.g. where the learner is unhappy with, or simply believes their mark is too low.

Policy Statement

